



---

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# **Canllawiau ar Weithredu Isafbris am Alcohol yng Nghymru**

# Cynnwys

Cyflwyniad.....	1
Adran 1: Gweithredu'r Isafbris Uned .....	5
Adran 2: Gweithredu .....	10
Adran 3: Gorfodi.....	13
Adran 4: Cyfathrebu a deunyddiau ategol.....	16
ATODIAD A: Cwestiynau Cyffredin .....	17

## Cyflwyniad

Bydd isafbris o 50c am uned o alcohol yn cael ei gyflwyno yng Nghymru o 2 Mawrth 2020.

Bydd rhaid i fangreoedd sydd â thrwydded i gyflenwi alcohol sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r isafbris uned. **Bydd yn drosedd i werthu neu gyflenwi alcohol, neu awdurdodi gwerthu neu gyflenwi alcohol am bris islaw'r isafbris cymwys.**

Bydd isafbris yn gosod y pris isaf am alcohol, sy'n golygu na fydd modd gwerthu na chyflenwi alcohol am bris gwerthu islaw'r pris hwnnw. Ni fydd yn cynyddu pris pob diod, dim ond y rhai hynny sydd ar hyn o bryd yn cael eu gwerthu neu eu cyflenwi am bris gwerthu islaw'r isafbris uned o 50c. Yng Nghymru, dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, bydd yr isafbris cymwys yn cael ei gyfrifo drwy gyfuno'r isafbris uned, cryfder yr alcohol a'i gyfaint.

### **Nod y canllawiau**

Prif nod y canllawiau yw cefnogi manwerthwyr ac awdurdodau lleol i gyfrifo, gweithredu a gorfodi isafbris am alcohol - ond mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth ynglŷn â'r Ddeddf sy'n berthnasol i randdeiliaid eraill.

Yn ogystal â'r canllawiau hyn, bydd deunyddiau ychwanegol a dogfennau ategol ar yr isafbris uned hefyd ar gael, gan gynnwys ap 'Cyfrifo Isafbris Uned', ffeithluniau, posteri, a thafenni gwybodaeth a fydd ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru:

<https://llyw.cymru/isafbris-uned-ar-gyfer-alcohol-canllawiau-ar-gyfer-manwerthwyr>

Nid yw'r canllawiau hyn gyfwerth â chyngor cyfreithiol a dylai unrhyw unigolyn, os yw'n ansicr ynglŷn â'r gyfraith, a sut i'w chymhwyso, geisio ei gyngor cyfreithiol ei hun. Er mai mater i'r llysoedd fydd dehongli'r ddeddfwriaeth yn gywir yn y pen draw, mae'r canllawiau hyn yn egluro effaith fwriedig y ddeddfwriaeth.

Daw'r isafbris am alcohol i rym ar 2 Mawrth 2020. Ni chaniateir unrhyw gyfnod gras ar gyfer gweithredu'r isafbris am alcohol. Mae Cwestiynau Cyffredin i'ch cynorthwyo wedi'u cynnwys yn Atodiad A.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiwn nad ydych yn credu ei fod wedi'i ateb yn y ddogfen hon, cysylltwch â: [DeddfIaA.MUPAct@llyw.cymru](mailto:DeddfIaA.MUPAct@llyw.cymru)

### **Trosolwg: Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 a gweithredu isafbris am alcohol**

Cafodd Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 Gydsyniad Brenhinol ar 9 Awst 2018 (y Ddeddf). Mae'n rhan o ymgyrch eang a pharhaus Llywodraeth Cymru i leihau lefelau yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru.

Nod y Ddeddf yw mynd i'r afael â rhai o'r pryderon iechyd hirdymor a phenodol ynghylch effaith goryfed alcohol yng Nghymru. Mae'n nodi ymrwymiad cadarn i barhau i wella a diogelu iechyd poblogaeth Cymru – ac mae wedi'i thargedu'n benodol i ddiogelu iechyd yfwyr peryglus a niweidiol sy'n dueddol o yfed mwy o alcohol rhatach a chryfach.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar lefel arfaethedig yr isafbris uned at ddibenion y Ddeddf. Daeth i'r casgliad bod pennu isafbris uned o 50c (£0.50) yn ymateb cymesur i'r angen i fynd i'r afael â'r risgiau i iechyd sy'n gysylltiedig â goryfed alcohol.

O ganlyniad, pennodd Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019 a osodwyd ar 15 Hydref 2019 isafbris o 50c am uned o alcohol. Cytunodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y rhain ar 12 Tachwedd 2019.

Yn y canllawiau hyn, rydym yn nodi nifer o enghreifftiau o sut y bydd y fformiwla isafbris yn gweithio gan ddefnyddio'r isafbris uned o 50c (£0.50).

### **I bwy mae'r isafbris uned yn berthnasol**

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn drosedd i fanwerthwyr alcohol gyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru neu i awdurdodi cyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru am bris gwerthu islaw'r isafbris cymwys am yr alcohol.

Mae gan y termau "manwerthwr alcohol", "cyflenwi alcohol" a "mangre gymhwysol" ystyr penodol at y diben hwn a amlinellir yn adrannau 3 a 4 o'r Ddeddf. Mae adran 3 o'r Ddeddf yn diffinio "cyflenwi alcohol" fel gwerthu alcohol drwy fanwerthu i berson yng Nghymru, neu gyflenwi gan neu ar ran clwb i un o'i aelodau yng Nghymru, neu i berson yng Nghymru ar ran aelod o'r clwb. At y diben hwn, mae gan "gwerthu drwy fanwerthu" yr un ystyr ag yn Neddf Trwyddedu 2003. Bydd pa un a yw trafodyn penodol sy'n cynnwys alcohol yn achos o "werthu drwy fanwerthu" yn dibynnu ar y ffeithiau ym mhob achos.

Mae Adran 3 hefyd yn diffinio "Mangre Gymhwysol" ac yn darparu bod mangre yn "fangre gymhwysol" os:

- (a) yw trwydded mangre o dan Ran 3 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn awdurdodi defnyddio'r fangre i gyflenwi alcohol (er enghraifft, mangre sy'n gwerthu alcohol i'r cyhoedd fel tafarn neu archfarchnad);
- (b) yw tystysgrif mangre clwb o dan Ran 4 o Ddeddf Trwyddedu 2003 yn ardystio y caniateir i'r fangre gael ei defnyddio i gyflenwi alcohol (er enghraifft, gall fod yn glwb rygbi); neu
- (c) yw cyflenwi alcohol yn y fangre neu o'r fangre yn weithgaredd dros dro a ganiateir o dan Ran 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Er enghraifft, gall hyn fod pan fo alcohol yn cael ei gyflenwi mewn gŵyl fechan neu ffair stryd.

Cyfrifoldeb y manwerthwyr hyn yn y pen draw fydd sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Mewn sefyllfa lle mae amheuaeth gan fanwerthwr a yw wedi cydymffurfio â'r isafbris uned, yr opsiwn mwyaf diogel fyddai bod yn wylidwrus a cheisio cyngor cyfreithiol os oes angen.

### **Beth rydym yn ei olygu wrth alcohol**

Ystyr alcohol yw gwirodydd, gwin, cwrw, seidr neu unrhyw ddiod wirodol, diod frag neu ddiod ddistyll arall, ond nid yw'n cynnwys unrhyw un o'r canlynol:

- (a) alcohol o gryfder nad yw'n fwy na 1.2% pan gaiff ei gyflenwi;
- (b) persawr;
- (c) rhinflasau sydd wedi'u cydnabod gan Gomisiynwyr Refeniw a Thollau Ei Mawrhydi fel rhai na fwriedir eu defnyddio i'w hyfed fel gwirod alcoholig trehadwy neu gyda gwirod o'r fath;
- (d) rhinflas aromatig a elwir fel arfer yn chwerwon angostwra;
- (e) alcohol sy'n gynnwys meddyginiaethol neu'n gynnwys meddyginiaethol milfeddygol, neu sydd wedi'i gynnwys yn y cynnyrch hyn;
- (f) alcohol wedi ei annatureiddio;
- (g) alcohol methyl;
- (h) nafttha; ac
- (i) alcohol sydd wedi'i gynnwys mewn melysion gwirod.

### **Pwy sy'n atebol o ran cyflawni'r drosedd o werthu am bris sy'n rhatach na'r isafbris cymwys**

Pan fydd alcohol yn cael ei werthu neu ei gyflenwi o fangre y mae trwydded wedi ei rhoi mewn cysylltiad â hi o dan Ran 3 o Ddeddf Trwyddedu 2003 (er enghraifft, tafarn neu archfarchnad), mae pob un o'r canlynol yn fanwerthwr alcohol at ddiben y Ddeddf:

- (a) deiliad trwydded bersonol o dan Ran 6 o Ddeddf Trwyddedu 2003.
- (b) goruchwyliwr dynodedig y fangre o dan Ddeddf Trwyddedu 2003.

Mewn perthynas â chlybiau, y manwerthwr alcohol yw deiliad y dystysgrif mangre clwb (er enghraifft, y clwb). Mewn perthynas â digwyddiadau dros dro, y manwerthwr alcohol yw defnyddiwr y fangre at ddiben Rhan 5 o Ddeddf Trwyddedu 2003. Er enghraifft, y person sydd wedi trefnu'r ffair stryd, os mai nhw roddodd yr hysbysiad o'r digwyddiad dros dro.

### **Isafbris uned ar gyfer alcohol a chyfanwerthwyr**

Mae gwerthiannau cyfanwerthu wedi'u heithrio. Felly, ni fydd cyfanwerthwyr yn ddarostyngedig i unrhyw ofyniad o ran isafbris uned oherwydd natur eu gwerthiannau i fasnachwyr eraill. Os yw manwerthwr yn masnachu fel busnes manwerthu a chyfanwerthu, bydd angen gweithredu system brisio ddeuol gydag un drefn brisio ar gyfer prynwyr (yn seiliedig ar isafbris uned o 50c) ac un ar gyfer masnach.

## Adran 1: Gweithredu'r Isafbris Uned

### **Sut i gyfrifo'r isafbris cymwys ar gyfer cynhyrchion alcoholig, gan gynnwys enghreifftiau.**

Mae'r Ddeddf yn cynnwys fformiwla ar gyfer sut y mae'n rhaid cyfrifo'r isafbris cymwys. Bydd y fformiwla hon yn cynnwys yr isafbris uned o 50c, canran cryfder yr alcohol, a'r cyfaint. Cafodd y fformiwla ei chreu gyda'r bwriad o dargedu alcohol sy'n rhad ac yn gryf, gan fod y bobl sydd mewn perygl mwyaf o gael niwed o yfed alcohol yn dueddol o yfed y diodydd hyn.

Os bydd diod sy'n cynnwys alcohol yn cael ei gwerthu am bris sy'n uwch na'r isafbris cymwys, ni fydd angen newid y pris hwnnw. Os yw'r diod yn cael ei gwerthu ar hyn o bryd am lai na'r pris cymwys, bydd yn rhaid codi'r pris hwnnw.

#### **FFORMIWLA I GYFRIFO'R ISAFBRIS CYMWYS: I x CR x CY lle mai:**

- (a) **I** yw'r isafbris uned (50c / £0.50) fel y nodwyd yn Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019.
- (b) **Cr** yw cryfder yr alcohol, wedi'i fynegi fel rhif prifol (felly er enghraifft os yw'r cryfder yn 5%, 5 fydd y rhif prifol perthnasol).
- (c) **Cy** yw cyfaint yr alcohol mewn litrau.

**Os nad yw'r isafbris gwerthu a gyfrifwyd yn rhif cyflawn mewn ceiniogau, bydd yn cael ei dalgrynnu i'r geiniog agosaf – gan gymryd bod hanner ceiniog yn agosach i'r geiniog lawn nesaf.**

### **Esiamplau wedi'u cwblhau gan ddefnyddio isafbris uned o 50c**

#### **ENGHRAIFFT O SUT Y BYDD Y FFORMIWLA YN GWEITHIO**

#### **CYFRIFO'R ISAFBRIS CYMWYS AM BOTEL O SEIDR**

**I x Cr x Cy**

Isafbris potel o seidr 3 litr (Cy) â chryfder o 7.5% (Cr) fyddai £11.25 (0.5 x 7.5 x 3), sef cyfanswm tair gydran y fformiwla.

**0.5 X 7.5 X 3**

**ISAFBRIS CYMWYS = £11.25**

**ENGHRAIFFT O SUT Y BYDD Y FFORMIWLA YN GWEITHIO**

**CYFRIFO'R ISAFBRIS CYMWYS AM BOTEL O WIN**

**I x Cr x Cy**

Isafbris potel o win 75cl (Cy) â chryfder (alcohol yn ôl cyfaint) o 12.5% (Cr) fyddai £4.69 (0.5 X 12.5 X 0.75), sef cyfanswm tair gydran y fformiwla.

**0.5 X 12.5 X 0.75 = £4.6875 a fydd yn *cael ei dalgrynnu* i £4.69.**

**ISAFBRIS CYMWYS = £4.69**

**ENGHRAIFFT O SUT Y BYDD Y FFORMIWLA YN GWEITHIO**

**CYFRIFO'R ISAFBRIS CYMWYS AM GAN O LAGER**

**I x Cr x Cy**

Isafbrys can o lager gyda chryfder alcohol yn ôl cyfaint (Cr) o 4.3%, mewn can peint 568ml (Cy) fyddai £1.22 (0.5 X 4.3 (%) X 0.568) sef cyfanswm tair gydran y fformiwla.

**0.5 X 4.3 X 0.568 = £1.2212 a fydd yn *cael ei dalgrynnu* i lawr i £1.22.**

**ISAFBRIS CYMWYS = £1.22**

**ENGHRAIFFT O SUT Y BYDD Y FFORMIWLA YN GWEITHIO**

**CYFRIFO'R ISAFBRIS CYMWYS AM BOTEL O FODCA**

**I x Cr x Cy**

Isafbris potel o fodca 70cl (Cy) â chryfder (alcohol yn ôl cyfaint) o 40% (Cr) fyddai £14 (0.5 X 40 X 0.7), sef cyfanswm tair gydran y fformiwla.

**0.5 X 40 X 0.7**

**ISAFBRIS CYMWYS = £14.00**



## **Cynigion arbennig yn ymwneud ag alcohol**

Mae adrannau 5 i 7 o'r Ddeddf yn amlinellu rheolau sy'n ymwneud â phennu'r isafbris cymwys mewn perthynas ag alcohol a gyflenwir drwy amryw o gynigion arbennig.

- *Trafodiadau alcohol amleitem megis "prynu un, cael un yn rhad ac am ddim".* Mae adran 5 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl alcohol a gyflenwir mewn trafodiad alcohol amleitem gael ei ystyried wrth benderfynu ar yr isafbris cymwys. Mae hyn yn osgoi amheuaeth ynghylch sut y mae'r drosedd yn adran 2 o'r Ddeddf yn effeithio ar achosion pan na fo gan ddogn o'r alcohol a gyflenwir mewn trafodiad unrhyw bris gwerthu y gellir ei nodi, neu pan fo ganddo bris gwerthu sydd wedi ei aflunio drwy ostyngiad. Pan fo'r alcohol sy'n cael ei gyflenwi o gryfderau gwahanol, mae adran 7(2) o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol eu bod yn cael eu cyfrifo ar wahân er mwyn pennu'r isafbris cymwys mewn perthynas â chryfderau gwahanol o alcohol. Mae cyfanswm y cyfrifiadau hynny yn darparu'r isafswm cymwys am y trafodiad. Er ei bod yn debygol y bydd y rhan fwyaf o drafodiadau alcohol amleitem yn golygu bod cyflenwr a chwsmer yn cyfnewid arian parod unwaith, nid dyma fydd yr achos bob tro. Er enghraifft, gallai pris diod a brynir yn ddilynol gael ei leihau drwy gyfeirio at ddiodydd a brynir yn gynharach. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i'r ddiod a brynir yn ddilynol a'r diodydd a brynir yn gynharach oll gael eu trin fel un trafodiad ac i'r isafbris uned cymwys gael ei gyfrifo fel y nodir.
- *Alcohol a gyflenwir ynghyd â nwyddau a gwasanaethau eraill.* Mae categori arall, sef "cynnig arbennig" yn cynnwys bargeinion lle caiff alcohol ei gyflenwi ynghyd â nwyddau eraill ac eithrio alcohol, neu wasanaethau; naill ai lle cyflenwir y nwyddau eraill neu'r gwasanaethau a'r alcohol am un pris penodol, neu lle cyflenwir alcohol am bris gostyngol os cyflenwir nwyddau eraill neu wasanaethau. Mae llawer o'r cynigion y bydd yr adran hon yn gymwys iddynt yn debygol o fod yn gynigion sy'n cynnwys cyflenwi alcohol ynghyd â bwyd, ond nid ydynt yn gyfyngedig i achosion o'r fath. Byddai'n berthnasol er enghraifft pan fyddai coctel yn cael ei gyflenwi, gyda chymysgydd, am bris penodol (gyda'r dogn dialcoholaid o'r coctel yn gyfystyr â nwydd ac eithrio alcohol). Fel gyda thrafodiadau alcohol amleitem, mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i gyfrifiadau ar wahân gael eu cynnal at ddiben penderfynu ar yr isafbris cymwys am alcohol o gryfderau gwahanol a gyflenwir ar y cyd â nwyddau eraill neu wasanaethau. Byddai'r ddeddfwriaeth hefyd yn berthnasol lle disgrifir yr alcohol a gyflenwir gyda nwyddau eraill neu wasanaethau fel cynnig yn rhad ac am ddim. Er enghraifft, cynnig pan fo prynu cyfuniad penodol o fwyd yn cynnwys potel o win "yn rhad ac am ddim".

## **Trafodiadau alcohol amleitem - sut i gyfrifo'r isafbris cymwys**

### **Enghraifft 1**

Yn achos cynnig "prynu un, cael un yn rhad am ddim", pan fo dau focs o lager â chryfder o 4% yn cael eu disgrifio fel pe baent yn cael eu cyflenwi am bris un boc, a chan dybio bod pob boc yn cynnwys 10 can â chyfaint o 330ml yr un, byddai'r ddau focs yn cael eu trin fel pe baent wedi eu cyflenwi am y pris a delir am un boc.

Gan gymryd bod un boc wedi ei gyflenwi am bris gwerthu o £14, byddai'r isafbris cymwys mewn perthynas â'r lager yn cael ei gyfrifo fel a ganlyn:

I yw £0.50; Cr yw 4 (cryfder yn ôl cyfaint y lager); Cy yw 6.6 litr (cyfanswm cyfaint yr 20 o ganiau).

$0.5 \times 4 \times 6.6 = £13.20$  - **dyma isafbris gwerthu'r alcohol hwn.** Yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu, sef £14 am y ddau focs, yn uwch na'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwyd, ac ni fyddai trosedd wedi'i chyflawni dan adran 2 o'r Ddeddf.

### Enghraifft 2

Pe bai tri bocs o gwrw, lager neu seidr ar gael i'w prynu am un pris gwerthu o £30, er enghraifft, byddai angen cyfrifo'r isafbris am bob bocs er mwyn gweithio allan a oedd y pris gwerthu o £30 islaw'r isafbris cymwys am y cyfuniadau gwahanol o alcohol a allai gael eu cyflenwi.

Gan dybio bod y bocs o gwrw yn cynnwys 10 can 440ml â chryfder yn ôl cyfaint o 6%; bod y bocs o lager yn cynnwys 12 o ganiau 440ml â chryfder o 4%; a bod y bocs o seidr yn cynnwys 12 o boteli 300ml â chryfder o 5%:

**Yr isafbris am y bocs o gwrw fyddai £13.20** (£0.50 X 6 X 4.4 litr (cyfanswm cyfaint y bocs)).

**Yr isafbris am y bocs o lager fyddai £10.56** (£0.50 X 4 X 5.28 litr).

**Yr isafbris am y bocs o seidr fyddai £9.90** (£0.50 X 5 X 3.96 litr).

Pan fo cwsmer yn dewis prynu dau focs o gwrw a bocs o seidr, yr isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir fyddai £36.30 (sef cyfanswm yr isafbris o £26.40 am y ddau focs o gwrw a £9.90 am y seidr).

Felly, yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu wedi bod yn £6.30 islaw'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwyd, a, chan dybio absenoldeb amddiffyniad, byddai'r manwerthwr yn agored i gael ei erlyn am gyflawni'r drosedd o dan adran 2 o'r Ddeddf.

Ond ni fyddai'n drosedd o dan adran 2 o'r Ddeddf i un cwsmer brynu tri bocs o seidr, gan y byddai'r isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir yn £29.70 (sef cyfanswm yr isafbris o £9.90 am bob bocs o seidr).

## **Cynigion sy'n cynnwys alcohol ynghyd â nwyddau eraill neu wasanaethau**

### Enghraifft 1

Pan fo tair eitem o fwyd a photel o win yn cael eu cyflenwi am un pris o £10, byddai'r pris gwerthu am y gwin yn cael ei ystyried fel £10.

Pe bai cyfaint y gwin yn 0.75 litr a'i gryfder yn ôl cyfaint yn 14%, yr isafbris cymwys am y gwin fyddai £5.25 (£0.50 X 14 X 0.75).

Yn yr enghraifft hon, byddai'r isafbris o £10 yn uwch na'r isafbris cymwys am y gwin, ac ni fyddai'r manwerthwr wedi cyflawni'r drosedd yn adran 2 o'r Ddeddf.

### Enghraifft 2

Mewn achos pan fo cwsmer yn gallu trefnu noson blasu gwin mewn siop winoedd am bris o £25, a bod 3 photel o win, a ddisgrifir fel rhai sy'n cael eu cyflenwi yn rhad ac am ddim, yn cael eu cyflenwi i'r cwsmer, byddai'r pris gwerthu am y gwin a gyflenwir gyda'r gwasanaeth yn cael ei ystyried fel £25.

Pe bai'r gwin yn cynnwys potel 0.75 litr o Pinot Grigio â chryfder yn ôl cyfaint o 12.5%; potel 0.75 litr o Merlot â chryfder o 14.5%; a photel 0.75 litr o Shiraz â chryfder o 13.5%; yr isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir fyddai cyfanswm yr isafbris am bob potel.

Yr isafbris am y Pinot Grigio fyddai £4.69 ( $£0.50 \times 12.5 \times 0.75$ ).

Yr isafbris am y Merlot fyddai £5.44 ( $£0.50 \times 14.5 \times 0.75$ ).

Yr isafbris am y Shiraz fyddai £5.06 ( $£0.50 \times 13.5 \times 0.75$ ).

Yr isafbris cymwys am yr alcohol a gyflenwir fyddai £15.19.

Yn yr enghraifft hon, byddai'r pris gwerthu o £25 yn uwch na'r isafbris cymwys am y gwin a gyflenwir, ac ni fyddai'r manwerthwr wedi cyflawni'r drosedd yn adran 2 o'r Ddeddf.

## Adran 2: Gweithredu

### ➤ **Gwerthu ar-lein a thros y ffôn**

Bydd yr isafbris cymwys yn berthnasol i alcohol a gyflenwir o fangreoddedd cymwys yng Nghymru i unigolyn yng Nghymru. Bydd angen i fusnesau sicrhau na chaiff alcohol ei werthu am bris islaw'r isafbris ar-lein a thros y ffôn os caiff ei ddsbarthu o leoliad yng Nghymru i unigolyn yng Nghymru. Os caiff yr alcohol ei brynu ar-lein neu dros y ffôn yng Nghymru a'i ddsbarthu o'r tu allan i Gymru neu i unigolyn o'r tu allan i Gymru, ni fydd yr isafbris uned yn gymwys. O ran cyfleusterau 'clicio a chasglu', mae'r cyfleusterau hyn yn gweithredu fel blwch post / man casglu yn hytrach na man ddsbarthu. Y man ddsbarthu fydd y man lle ddsbarthwyd y nwyddau ohono i'w danfon i'r cyfleusterau 'clicio a chasglu'.

Alcohol a **dddsbarthwyd yng Nghymru** ond **ei ddanfon neu ei gasglu** y tu allan i Gymru - **ni fydd yr isafbris uned yn gymwys.**

Alcohol a **dddsbarthwyd y tu allan i Gymru** ond **ei ddanfon neu ei gasglu yng Nghymru** - **ni fydd yr isafbris uned yn gymwys.**

### ➤ **Disgowntiau staff**

Gall busnesau barhau i gynnig gostyngiad i staff, cyn belled nad yw'r pris ar ôl yr holl ostyngiadau islaw'r isafbris. Mae hyn yn berthnasol i dalebau sy'n cael eu rhoi i staff fel rhan o'u pecyn buddion / cydnabyddiaeth.

### ➤ **Disgowntiau / cwponau arian i ffwrdd / cardiau gwobrwyo / talebau ac ati**

Mae manwerthwyr yn cynnal amryw o raglenni hyrwyddo, teyrngarwch a gostyngiadau a byddai'n amhosibl cynnwys pob un ohonynt yn y canllawiau hyn. Dylai manwerthwyr ddefnyddio eu disgrisiwn wrth benderfynu a ganiateir ymgyrch hyrwyddo sydd heb ei chynnwys yn y canllawiau a cheisio cyngor cyfreithiol, os yw hynny'n briodol.

### ➤ **Pwyntiau teyrngarwch**

Os yw cynllun teyrngarwch yn golygu y gall cwsmeriaid gasglu talebau fel gwobr am gwsmeriaeth barhaus dros gyfnod o amser, a bod gwerth ariannol i'r talebau hynny, byddant yn cael eu hystyried fel taliad arian parod. Er enghraifft, os yw archfarchnad yn cynnal ymgyrch lle gall cwsmeriaid gyfnewid cyfres o dderbynebau yn dangos isafswm gwariant am daleb o £10, gellir defnyddio'r daleb £10 i brynu alcohol yn yr un modd ag y gellir defnyddio pwyntiau teyrngarwch a thalebau anrheg. Ni chaiff pris yr alcohol sy'n cael ei brynu fod islaw'r isafbris cymwys.

### ➤ **Cardiau gwobrwyo**

Gellir parhau i ddefnyddio pwyntiau a thalebau gwobrwyo i brynu alcohol, naill ai yn y siop lle cawsant eu casglu, neu mewn siopau partner, ar yr amod bod gan y pwyntiau a ddefnyddir (a'r arian ychwanegol a delir os yw'n briodol) werth ariannol cyfwerth nad yw islaw'r isafbris am y cynnyrch alcohol. Er enghraifft, os yw manwerthwr yn gwerthu potel o win am £4.50 (isafbris am botel o win 750ml, cryfder alcohol yn ôl cyfaint o 12%), caniateir i gwsmer dalu am y gwin gan ddefnyddio pwyntiau gyda gwerth o £4.50, neu bwyntiau gyda gwerth o hyd at £4.50 gan dalu'r gweddill gydag arian parod.

### ➤ Cwponau gostyngiad / arian i ffwrdd

Gall busnesau barhau i gynnig cwponau gostyngiad ar gyfer diodydd alcoholig, ond mae'n rhaid iddynt sicrhau nad yw pris y cynnyrch, ar ôl cymhwyso'r gostyngiadau, yn syrthio islaw'r isafbris cymwys ar gyfer y cynnyrch.

Os cynigir cwpon i'r cyhoedd am ostyngiad ar alcohol yn unig, neu ar gynnyrch alcohol penodol, dylai'r manwerthwyr sicrhau nad yw pris y ddiodydd alcoholig yn syrthio islaw'r isafbris cymwys ar gyfer y cynnyrch ar ôl y gostyngiad. Mae hyn yn berthnasol pa un ai yw'r gostyngiad yn cael ei gynnig gan y manwerthwr neu'r cynhyrchydd. Os cynigir cwponau 'trothwy gwariant' i gwsmeriaid (ee arbed £2 ar ôl gwario £15), gellir eu defnyddio i brynu alcohol cyn belled nad yw cyfanswm cost y gwerthiant islaw'r isafbris am y cynnyrch alcohol. Os yw'r fasedged o nwyddau a brynir yn cynnwys cynnyrch alcohol a dialcohol, bydd y cwpon gostyngiad yn cael ei gymhwyso i gyfanswm cost y fasedged. Ni ddylai'r cwpon gostyngiad fynd â phris y nwyddau alcoholig islaw'r isafbris cymwys.

#### TALEBAU A GOSTYNGIADAU

Yn gyffredinol, mae talebau a gostyngiadau sy'n amlwg yn gysylltiedig â chynllun gwobrwyo neu ad-daliad yn cael eu hystyried fel swm cyfwerth ag arian parod ac felly gellir eu defnyddio fel taliad rhannol (neu gyfan gwbl) ar gyfer y cynnyrch alcohol. Ni chaniateir defnyddio talebau a gostyngiadau nad ydynt yn amlwg yn gysylltiedig â chynllun gwobrwyo neu ad-daliad os byddai'r daleb neu ostyngiad yn mynd â chost y cynnyrch alcohol islaw'r isafbris cymwys. Yn yr enghraifft ganlynol, un botel o fodca sy'n cael ei phrynu, ac nid basged o nwyddau:

Isafbris uned potel 700ml o fodca a chryfder o 37.5% = £13.13

Pris fodca yn y siop = £15

**Sefyllfa 1:** Mae'r cwsmer yn prynu fodca ac yn defnyddio 400 o bwyntiau teyrngarwch (cyfwerth â £2) i fynd â phris y botel i lawr i £13. Caniateir hyn oherwydd bod pwyntiau teyrngarwch yn cael eu 'hennill' drwy wario swm penodol.

**Sefyllfa 2:** Mae'r cwsmer yn prynu fodca ac yn defnyddio cwpon 'brand cyfatebol' i ostwng y pris. Mewn egwyddor, caniateir defnyddio cwpon ad-daliad ar gyfer pryniant alcohol, gan ostwng y pris. Isafbris y fodca yw £13.13, felly ni all unrhyw fanwerthwr werthu'r fodca am bris islaw'r pris hwn. Felly, yn yr enghraifft hon gyda'r pris gwerthu yn £15, uchafswm gwerth cwpon 'brand cyfatebol' y gellir ei ddefnyddio yw £1.87 (£15 tynnu £13.13) gan na chaniateir gwerthu'r alcohol am bris gwerthu islaw £13.13.

**Sefyllfa 3:** Mae'r cwsmer yn prynu fodca ac yn defnyddio cwpon '£2 i ffwrdd ar ôl gwario £15' i fynd â'r pris i lawr i £13. Ni chaniateir hyn gan nad yw'r cwpon yn cyd-fynd yn uniongyrchol â chasglu pwyntiau, ac nid oes disgwyl i gwsmeriaid fedru rhagweld pa bryd y bydd y cwponau hynny ar gael.

➤ **Diodydd cynhwysol**

Gall mangreoedd cymwys barhau i gynnal ymgyrchoedd hyrwyddo os ydynt yn cydfynd â gofynion y Ddeddf ac unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol berthnasol arall (gan gynnwys y cyfyngiad ar ymgyrchoedd hyrwyddo anghyfrifol o dan Ddeddf Trwyddedu 2003). O dan y Ddeddf, er enghraifft, gydag unrhyw gynnig sy'n cynnwys potel o win gyda phryd o fwyd, byddai angen i'r manwerthwyr sicrhau nad yw pris cyffredinol yr ymgyrch hyrwyddo islaw'r isafbris cymwys am yr alcohol.

## Adran 3: Gorfodi

### **Beth ddylai manwerthwyr ei ddisgwyl**

Mae'r Ddeddf yn sefydlu trefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol. Y bwriad yw y bydd awdurdodau lleol yng Nghymru yn gorfodi'r drefn newydd gan ddefnyddio trefniadau presennol i archwilio a rheoleiddio mangreoedd sy'n gwerthu alcohol. Mae'n debygol y bydd awdurdodau lleol yn cysylltu â manwerthwyr yn y cyfnod cyn gweithredu'r ddeddfwriaeth, neu'n fuan wedyn. Gall hyn fod ar ffurf ymweliad arolygu.

Bydd rhaid i fanwerthwyr wirio prisiau pob cynnyrch alcohol sy'n cael ei werthu i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth pan ddaw i rym ar 2 Mawrth 2020. Dylid gwneud hyn cyn gweithredu'r Ddeddf.

Os yw manwerthwr yn darganfod bod unrhyw gynnyrch alcohol yn cael ei gynnig ar werth am bris gwerthu islaw'r isafbris, yna bydd rhaid newid y pris gwerthu neu beidio gwerthu'r cynnyrch.

Gall hyfforddiant staff ychwanegol fod yn ddefnyddiol i sicrhau bod pob aelod staff sydd wedi'u hawdurdodi i werthu alcohol yn gyfarwydd â'r gyfraith newydd.

Yn ystod ymweliad arolygu gan awdurdodau lleol, mae'n debygol y bydd yr awdurdod lleol yn disgwyl gweld gwybodaeth brisio glir ar gyfer pob cynnyrch alcohol sydd ar werth yn y fangre. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys pris pecyn a phris eitem sengl os yw'n bosibl tynnu un eitem o'r pecyn i'w werthu'n unigol yn y fangre. Gellir darparu'r wybodaeth hon ym mha bynnag fformat sy'n addas i'r manwerthwr - rhestrau prisiau, pris ar y silff, pris ar y til, ac ati.

### **Canlyniadau methu â chydymffurfio â'r ddeddfwriaeth**

Mae gan fanwerthwyr alcohol sy'n cyflenwi alcohol o fangreoedd cymhwysol yng Nghymru neu sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol o fangreoedd cymhwysol yng Nghymru gyfrifoldeb i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a pheidio gwerthu alcohol am bris islaw'r isafbris cymwys.

Os ceir bod manwerthwr alcohol yn gwerthu, neu'n awdurdodi gwerthu alcohol islaw'r isafbris uned o 50c, gellir rhoi hysbysiad cosb benodedig iddynt. Swm y gosb yn yr hysbysiad fydd £200 os caiff ei dalu o fewn 29 diwrnod, neu £150 os caiff ei dalu o fewn 15 diwrnod.

Gall person a geir yn euog o drosedd cyflenwi alcohol yng Nghymru islaw'r isafbris cymwys gael dirwy hyd at lefel 3 (£1,000 ar hyn o bryd).

Bydd swyddogion awdurdodedig yr awdurdodau lleol yn cael eu hannog i hybu cydymffurfiaeth drwy godi ymwybyddiaeth o safonau perthnasol a gofynion cyfreithiol mewn amrywiaeth o ffyrdd, gan gynnwys drwy gyswllt wyneb yn wyneb. Os caiff manwerthwr alcohol ei ddal yn gwerthu alcohol am bris gwerthu islaw'r isafbris cymwys, bydd gan swyddogion awdurdodedig yr awdurdodau lleol hawl i erlyn fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd drwy eu polisïau gorfodi. Mae Llywodraeth Cymru

yn rhagweld y gallai awdurdodau lleol, mewn achosion priodol, ddymuno arfer eu disgresiwn a gweithio gyda manwerthwyr i ddatrys materion yn wirfoddol.

### **Gwybodaeth am Hysbysiadau Cosb Benodedig**

Dan y Ddeddf, gall swyddogion awdurdodedig roi Hysbysiad Cosb Benodedig i berson, sy'n cynnig cyfle i'r person hwnnw gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd i gael ei erlyn am drosedd dan adran 2 o'r Ddeddf drwy dalu'r gosb benodedig. Bydd yn rhaid i unrhyw hysbysiad cosb benodedig a roddir mewn cysylltiad â throsedd isafbris uned nodi manylion y drosedd honedig. Rhaid iddo hefyd hysbysu'r person a gafodd yr hysbysiad o'i hawl i fynd i'r llys mewn cysylltiad â'r drosedd honedig a rhaid iddo egluro sut y gellid arfer yr hawl honno.

Fel y nodwyd, swm yr hysbysiad cosb benodedig fydd £200 os gwneir y taliad cyn pen 29 diwrnod neu £150 os gwneir y taliad cyn pen 15 diwrnod. Bydd awdurdodau lleol yn gallu cadw'r derbyniadau sy'n deillio o hysbysiadau cosb benodedig a defnyddio'r symiau a geir i arfer eu swyddogaethau dan y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdodau lleol ddileu hysbysiad cosb benodedig sydd wedi'i roi. Os cyflwynir hysbysiad cosb benodedig i fanwerthwr alcohol ond nad yw'n cytuno â hynny, cynigir y gallai'r manwerthwr ofyn i'r awdurdod lleol ystyried dileu'r hysbysiad cosb benodedig. Gall awdurdod lleol ddileu hysbysiad cosb benodedig os yw'n amlwg na ddylai fod wedi cael ei gyhoeddi, er enghraifft: os cafodd ei roi i'r unigolyn anghywir, mewn camgymeriad neu fod amgylchiadau'r achos yn gwarantu iddo gael ei ddileu. Dylai hyn fod yn ddyfarniad cymharol syml yn seiliedig ar gyfrifo isafbris y cynnyrch dan sylw h.y.  $l \times Cr \times Cy$  (Isafbris uned  $x$  cryfder yr alcohol  $x$  cyfaint).

Os na chaiff yr hysbysiad cosb benodedig ei ddileu ac os na chaiff y gosb gymwys ei thalu, caiff yr awdurdod lleol, yn unol â darpariaeth Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018, ar ôl i'r cyfnod o 29 diwrnod ddod i ben, erlyn am y drosedd (oni bai bod yr unigolyn a gafodd yr hysbysiad cosb benodedig wedi gofyn i sefyll treial am y drosedd honedig). Rhagwelir y bydd y diwydiant yn cydymffurfio'n gyffredinol.

### **Hysbysiadau Cosb Benodedig ac Apeliadau**

Bydd y trefniadau talu yn cael eu hamlinellu ar yr hysbysiad cosb benodedig ynghyd â manylion lle gellir cyflwyno sylwadau yn ymwneud â'r hysbysiad. Bydd unrhyw sylwadau yn cael eu hystyried gan yr Awdurdod Lleol.

### **Gwybodaeth am droseddau**

Bydd person sy'n cael ei ddyfarnu'n euog o'r drosedd o gyflenwi alcohol yng Nghymru islaw'r isafbris uned cymwys yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na Lefel 3 (sef £1,000 ar hyn o bryd) ar y raddfa dirwyon safonol ar gyfer troseddau diannod o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982 (adran 8). Bydd y sawl sydd wedi'i gyhuddo o drosedd dan y Ddeddf yn gallu amddiffyn ei hun rhag y cyhuddiad drwy ddangos ei fod wedi cymryd camau rhesymol ac wedi arfer diwydrwydd dyladwy i osgoi cyflawni'r drosedd.



Bydd hefyd yn drosedd rhwystro swyddog awdurdodedig yn fwriadol rhag arfer ei swyddogaethau gorfodi o dan y Ddeddf. Bydd person sy'n euog o drosedd o'r fath hefyd yn agored i ddirwy heb fod yn uwch na Lefel 3 ar y raddfa dirwyon safonol ar gyfer troseddau diannod o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1982.

Bydd trosedd o dan y Ddeddf yn cael ei chynnwys fel trosedd berthnasol yn atodlen 4 i Ddeddf 2003 (trwyddedau personol: troseddau perthnasol). Mae trosedd berthnasol yn drosedd y gall awdurdod trwyddedu ei hystyried wrth wneud penderfyniadau am roi, diddymu neu atal trwyddedau personol dros dro. Os caiff deiliad trwydded personol ei erlyn am unrhyw drosedd berthnasol gan neu gerbron llys yng Nghymru a Lloegr, caiff y llys hefyd orchymyn i'r drwydded gael ei fforffedu neu ei hatal dros dro am gyfnod hyd at chwe mis.

Mae dyletswydd ar ddeiliad trwydded i hysbysu ei awdurdod trwyddedu ynghylch euogfarnau cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol (a bydd yn cyflawni trosedd os bydd yn methu â gwneud hynny heb esgus rhesymol). Hefyd, mae'n rhaid i unrhyw ddeiliad trwydded a geir yn euog o drosedd roi gwybod i'r llys bod ganddo drwydded personol ac mae'n rhaid i'r llys roi gwybod i'r awdurdod trwyddedu perthnasol am unrhyw euogfarn a dedfryd a roddwyd i ddeilydd y drwydded.

### **Diweddarau systemau prisio – ar gyfer manwerthwyr**

Bydd angen i fusnesau ac eraill sy'n gwerthu alcohol sicrhau bod eu systemau prisio wedi'u diweddarau a'u bod yn gywir i sicrhau na fydd alcohol yn cael ei werthu am bris islaw'r isafbris uned. Er enghraifft, sicrhau bod prisiau'n gywir ar silffoedd / codau bar / bwydlenni / rhestrau prisio. **Mae'n hanfodol bod pob pris yn glir ac yn ddiamwys i'r cwsmeriaid, ac nad ydynt yn cael eu camarwain.** Y cyngor yw bod unrhyw bris gwerthu nad yw'n gymwys bellach, gan gynnwys pris ar becynnau arbennig, yn cael ei dynnu neu ei orchuddio. Bydd angen i'r manwerthwr wneud yn siŵr hefyd bod yr holl brisiau yn cael eu newid, ee pris ar y silff, pris ar y til, fel nad yw'r cwsmer yn cael ei gamarwain o ran pris y cynnyrch.

## Adran 4: Cyfathrebu a deunyddiau ategol

### ➤ **Cyfathrebu**

Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfathrebu â manwerthwyr, awdurdodau lleol a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch y ddeddfwriaeth a gweithredu'r ddeddfwriaeth.

**Cyfathrebu â manwerthwyr** - bydd y gweithgarwch cyfathrebu gyda'r manwerthwyr yn dechrau cyn y dyddiad gwerthu ar 2 Mawrth 2020 i roi digon o amser i fanwerthwyr baratoi. Bydd pecynnau a deunyddiau gwybodaeth sy'n cael eu datblygu yn cael ei dosbarthu i'r holl fanwerthwyr yng Nghymru. Bydd y pecyn yn cynnwys:

- Llythyr A4
- Poster A3 x 2
- Taflen A5 8 tudalen
- 1 arwydd silff - 190x80mm
- 2 arwydd ymyl silff - 108x80mm a 80x34mm

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd angen mwy nag un yr un o'r ymylon silff hyn ar fanwerthwyr, a mwy nag un o'r deunyddiau eraill hefyd o bosib. Felly mae'n bosibl lawrlwytho deunyddiau i'w hargraffu ar ein gwefan yn:

<https://llyw.cymru/isafbris-uned-ar-gyfer-alcohol-canllawiau-ar-gyfer-manwerthwyr>

**Cyfathrebu gyda'r cyhoedd** - bydd ymgyrch gyfathrebu tri mis o hyd yn dechrau ym mis Ionawr 2020. Hon fydd ymgyrch gyhoeddus Llywodraeth Cymru a bydd yn cynnwys rhaglen y cyfryngau a chysylltiadau cyhoeddus, hysbysebu digidol, hysbysebion mewn cylchgronau masnach, hysbysebion radio, hysbysebion ar droliau a chynnwys ar gyfryngau cymdeithasol.

## ATODIAD A: Cwestiynau Cyffredin

### **Pryd y bydd yr isafbris uned yn dod i rym yng Nghymru?**

Daw'r isafbris uned am alcohol i rym ar 2 Mawrth 2020.

### **Pa gynhyrchion fydd yn destun yr isafbris uned?**

Bydd yr isafbris yn gymwys i bob cynnyrch alcohol gyda chryfder alcoholaidd yn ôl cyfaint sy'n fwy na 1.2%.

### **Sut y bydd y ddeddfwriaeth yn cael ei gorfodi?**

Mae'r Ddeddf yn sefydlu trefn orfodi dan arweiniad awdurdodau lleol. Bydd yn darparu'r pŵer i awdurdodau lleol ddwyn erlyniadau mewn cysylltiad â throeddau yn ei ardal o dan y Ddeddf; ymchwilio i gwynion mewn cysylltiad â throeddau honedig yn ei ardal; a chymryd unrhyw gamau eraill gyda'r bwriad o ostwng nifer y troeddau o'r fath sy'n digwydd yn ei ardal.

### **Beth fydd yn digwydd os na fydd y manwerthwyr yn cydymffurfio â'r gofynion?**

Os caiff manwerthwr alcohol ei ddal yn gwerthu alcohol lai na'r isafbris cymwys o 50c yr uned, bydd gan swyddogion awdurdodedig yr awdurdodau lleol hawl i erlyn fel y maent yn ei wneud ar hyn o bryd drwy eu polisïau gorfodi eraill.

Mae'r Ddeddf yn darparu y caiff swyddogion awdurdodedig roi Hysbysiad Cosb Benodedig i berson, sy'n cynnig cyfle i'r person hwnnw gael ei ryddhau o unrhyw atebolrwydd i gael ei erlyn am drosedd dan adran 2 o'r Ddeddf, drwy dalu'r gosb benodedig. Gall person a geir yn euog o drosedd o gyflenwi alcohol yng Nghymru islaw'r isafbris cymwys gael dirwy hyd at lefel 3 (£1,000 ar hyn o bryd).

### **Pa wybodaeth y bydd awdurdodau lleol ei hangen er mwyn gwirio y cydymffurfiwyd â'r isafbris uned?**

Bydd gweithgareddau archwilio a gorfodi yn cael eu harwain gan swyddogion awdurdodedig yn yr awdurdodau lleol. Bydd angen i swyddogion awdurdodedig gael gwybod prisiau gwerthu cynnyrch alcohol er mwyn cadarnhau bod y pris yn cydymffurfio â'r isafbris. Gallai manwerthwyr helpu gyda hyn drwy sicrhau bod prisiau cynnyrch sydd ar werth ar hyn o bryd wrth law ar ba ffurf bynnag sydd fwyaf cyfleus i'r manwerthwr. Mae er lles manwerthwyr i gynorthwyo awdurdodau lleol yn hyn o beth, gan mai'r rheiny sy'n gwerthu alcohol sy'n gyfrifol am gydymffurfio â'r isafbris.

### **A fydd camau gorfodi yn rhagweithiol neu'n adweithiol?**

Awdurdodau lleol unigol fydd yn penderfynu ar hyn.

### **Sut bydd prisiau yn cael eu talgrynnu o dan y Ddeddf?**

Lle nad yw'r isafbris gwerthu am yr alcohol a gyfrifir yn rhif cyfan mewn ceiniogau, mae'n cael ei dalgrynnu i'r geiniog gyfan agosaf - gan gymryd bod hanner ceiniog yn nes at y geiniog gyfan i fyny (gweler yr enghraifft ar dudalen 5).

### **A fydd cost dosbarthu archeb yn effeithio ar gyfrifiad yr isafbris uned?**

Na fydd. Pris gwerthu'r cynnyrch alcohol sy'n cael ei ddanfôn sy'n gorfod cydymffurfio â'r isafbris gwerthu. Nid yw unrhyw gost dosbarthu yn berthnasol i bris gwerthu'r cynnyrch alcohol. Cyfrifoldeb y manwerthwr sy'n gwerthu'r alcohol yw gwneud sicrhau bod pris gwerthu'r cynnyrch alcohol yn cydymffurfio â'r isafbris uned.

### **Pa effaith fyddai unrhyw gynnydd mewn tollau a TAW yn ei chael ar yr isafbris cymwys?**

Mae tollau a TAW ar alcohol yn wahanol ac yn gwbl ar wahân i isafbris uned. Mae'r isafbris uned yn 50c, fel y nodwyd yn Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019 a osodwyd ar 15 Hydref 2019 a'i gytuno gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 12 Tachwedd 2019. Drwy gymhwyso'r fformiwla a nodwyd yn y Ddeddf, bydd hyn yn pennu'r pris isaf posibl ar gyfer gwerthu'r alcohol, sef yr isafbris cymwys. Dylid cyfrifo tollau a TAW ar wahân a bydd hyn yn eich hysbysu o'r pris gwerthu terfynol. Ni ddylai'r pris gwerthu terfynol fod islaw'r isafbris cymwys.

### **A yw gwaharddiad y Swyddfa Gartref ar werthu alcohol am bris islaw cost y tollau a TAW yn berthnasol yng Nghymru yn ogystal â'r isafbris uned?**

Ydy, mae'r gwaharddiad ar werthu alcohol am bris islaw cost y tollau a TAW yn berthnasol yng Nghymru yn ogystal â'r isafbris uned.

### **Sut y bydd isafbris uned yn effeithio ar alcohol sy'n cael ei werthu ar draws y ffin?**

Mae Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018 yn berthnasol i Gymru yn unig.

Nid yw'n anghyfreithlon i brynu alcohol o fangre drwyddedig yn Lloegr os yw'r alcohol yn cael ei brynu at ddiben yr unigolyn. Nid yw'n anghyfreithlon i brynu alcohol o fangre drwyddedig yn Lloegr ac yna gwerthu'r alcohol hwn o fangre drwyddedig yng Nghymru. Ond ni fydd manwerthwyr alcohol sy'n mynd ati i werthu alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru neu sy'n awdurdodi cyflenwi alcohol o fangre gymhwysol yng Nghymru yn cael gwerthu am bris gwerthu islaw'r isafbris cymwys am yr alcohol.

### **A yw manwerthwyr yn dal i allu gwerthu cynnyrch â phris wedi'i nodi arnynt?**

Os yw mangreoedd trwyddedig yn gwerthu cynnyrch â phris wedi'i nodi arnynt / pecynnau arbennig lle mae'r pris islaw'r isafbris ar hyn o bryd, bydd angen iddynt benderfynu beth i wneud â'r stoc cyn i'r isafbris uned ddod i rym.

Os yw'r pris yn cael ei newid ar y pecyn (i fod o leiaf yr isafbris cymwys), mae'n hanfodol bod y pris yn glir ac yn ddiamwys i'r cwsmeriaid, ac nad ydynt yn cael eu camarwain.

Bydd angen i'r manwerthwr wneud yn siŵr hefyd bod yr holl brisiau yn cael eu newid, ee pris ar y silff, pris ar y til, fel nad yw'r cwsmer yn cael ei gamarwain o ran pris y cynnyrch. Argymhellir bod unrhyw bris nad yw bellach yn berthnasol, gan gynnwys y cynnyrch â phris wedi'i nodi arnynt / pecynnau arbennig, yn cael ei dynnu neu ei orchuddio. Dewis arall yw rhoi'r gorau i werthu unrhyw gynnyrch â phris wedi'i nodi arnynt / pecynnau arbennig os yw'r pris presennol islaw'r isafbris.

### **A yw diodydd am ddim sy'n cael eu cynnig fel iawndal (ee am oedi wrth aros am bryd o fwyd) yn cyfrif fel gwerthiant?**

Nid yw diodydd a ddarperir am ddim mewn sefyllfa arbennig, er enghraifft diodydd a gynigir fel iawndal am fwyd sy'n cyrraedd yn hwyr, neu'n cael eu cynnig fel sampl mewn siop, yn cyfrif fel gwerthiant gan nad yw'r cwsmer wedi talu dim amdanynt.

### **A oes modd defnyddio talebau anrheg i brynu alcohol?**

Oes. Caniateir hyn gan eu bod yn cael eu trin fel arian parod. Ni chaiff pris yr alcohol a gyflenwyd fod islaw'r isafbris cymwys.

### **Sut y bydd isafbris uned yn effeithio ar gwsmeriaid sy'n prynu tocyn sy'n cynnwys pris pryd o fwyd a diod?**

Bydd angen i'r manwerthwyr sicrhau nad yw pris cyffredinol yr ymgyrch hyrwyddo yn is na'r isafbris cymwys am yr alcohol.

### **Sut y bydd isafbris uned yn effeithio ar werthiant stoc sydd wedi'i ddifrodi?**

Gellir parhau i werthu stoc sydd wedi'i ddifrodi am bris rhatach, cyn belled nad yw'r pris hwnnw islaw'r isafbris.

### **Mae manwerthwr yn cynnal cynllun cynilon lle bydd y manwerthwr yn cyfrannu arian os bydd y cwsmer yn cynilo swm penodol. Er enghraifft, drwy gydol y flwyddyn bydd y cwsmer yn cynilo £28 mewn cynllun cynilon gyda'r manwerthwr ac, ar adeg benodol yn ystod y flwyddyn, bydd y manwerthwr yn cyfrannu arian i godi'r swm hwn i £30. A yw'r cwsmer yn cael defnyddio hwn i dalu am alcohol sydd ag isafbris o £30?**

Mae hon yn sefyllfa debyg i'r cynllun gwobrwyo. Mae'r £2 ychwanegol yn cael ei ystyried fel swm cyfwerth ag arian parod felly gellir ei ddefnyddio fel taliad rhannol (neu gyfan gwbl) ar gyfer y cynnyrch alcohol.

### **A yw manwerthwyr yn dal i gael cynnig ad-daliadau rhannol ar gyfer unrhyw ddiffygion nad ydynt yn amlwg ar adeg gwerthu?**

Os rhoddir ad-daliad rhannol yn dilyn pryniant oherwydd bod nwyddau yn ddiffygiol, gall y prynwr fod â hawl i gael ad-daliad yn unol â'i hawliau statudol a gall hyn fod yn dderbyniol fel amddiffyniad pe bai'r ad-daliad yn mynd â'r pris islaw'r isafswm. Os yw'r gwerthwr yn dymuno mynd y tu hwnt i'r gofyniad cyfreithiol am ad-daliad, ac os yw'r ad-daliad yn mynd â'r pris islaw'r isafbris, dylai nodi ffeithiau'r achos yn glir. Dylai nodi a yw'r ad-daliad am wasanaeth gwael neu stoc wedi'i ddifrodi, a dylai'r rheswm dros yr ad-daliad fod wedi dod i'r amlwg ar ôl y gwerthiant yn unig.

#### **Rhestr wirio camau nesaf i fanwerthwyr**

Rydym yn cynghori manwerthwyr i gymryd y camau canlynol i sicrhau nad ydynt yn gwerthu alcohol am bris sydd islaw'r isafbris o 50c yr uned.

- Cyfrifo'r isafbris priodol ar gyfer cynnyrch alcohol;
- Creu polisi ynghylch pa symiau disgownt (os oes rhai) a allai gael eu defnyddio yn y siop, a'r broses i wneud yn siŵr na fyddai unrhyw ddisgownt yn golygu y byddai'r pris gwerthu islaw'r isafbris;
- Newid y pris (os bydd angen) ar y systemau prisio canolog, er mwyn sicrhau bod y pris cywir yn gysylltiedig â'r cod bar ar y cynnyrch.

➤ Cyn gweithredu unrhyw newidiadau i brisiau, dylid ystyried newid y prisiau ar y canlynol:

- tagiau neu labeli sy'n dangos y prisiau ar y silffoedd
- bwydlenni
- posterï, taflenni neu ddeunyddiau eraill sy'n hyrwyddo'r cynnyrch
- gwefannau

**Mae'n hanfodol bod pob pris yn glir ac yn ddiamwys i'r cwsmeriaid, ac nad ydynt yn cael eu camarwain.**

### **TROSI MESURIADAU IMPERIAL YN LITRAU:**

Mae rhai diodydd alcohol yn cael eu gwerthu mewn mesuriadau imperial. At ddiben cyfrifo'r isafbris cymwys, gall yr wybodaeth a ganlyn fod yn ddefnyddiol:

Galwyn imperial 4.546L

Peint imperial 0.568L

Hanner peint imperial 0.284L

Owens imperial 0.028L